# DOLWYDDELAN YN EI BLODAU

Mae gwirfoddolwyr Dolwyddelan yn ei Blodau yn ymfalchïo'n fawr eu bod yn cydweithio gyda thrigolion sy'n ymdrechu i gadw'r pentref yn daclus rhag sbwriel, a gweithio ar brosiectau amgylcheddol yr un pryd ac fel mabwysiadwyr platfform Gorsaf. Mae'n helpu i gadw'r ardal yn gysylltiedig, gwybodus ac yn bwysicaf, i ofalu am ein gilydd a'n hamgylchedd.

Dim ond drwy weithio mewn partneriaeth gyda'r sawl sefydliad yn y pentref y mae modd cyflawni'r gwaith hwn. Mae'r Senotaff a mynwent Bryn y Bedd yn ddwy enghraifft wych o hyn, lle mae'r Cyngor Cymuned fel tirfeddianwyr y ddau safle, yn gwerthfawrogi'n fawr y gwaith mae Dolwyddelan yn ei Blodau yn ei wneud.

Caiff y blychau blodau a'r gwlâu blodau ar yr A470 eu dyfrio a'u gofalu amdanynt gan wirfoddolwyr Dolwyddelan yn ei Blodau sy'n byw gerllaw. Mae platfform yr orsaf wedi derbyn sawl gwobr yn genedlaethol ac yn lleol dros y blynyddoedd ac mae ein gwirfoddolwyr yn parhau gyda'r gwaith arbennig yma. Mae cilfan Pont Arenig ar yr A470 a'r gwely blodau ym Maes y Llan yn enghreifftiau eraill o'r cydweithio agos gyda thrigolion. Mae'r lluniau atodedig yn dilyn gwaith tacluso diweddar ym Mhont Arenig. Mae'r ardal yma hefyd yn lle parcio i dwristiaid sy'n ymweld â'r Castell, ac felly mae'n rhoi croeso cynnes i bobl i Ddolwyddelan.





Mae maes parcio'r orsaf hefyd yn brosiect gwych dan arweiniad Dolwyddelan yn ei Blodau lle mae meinciau picnic a thaith gerdded drwy'r coed, yn ogystal â rhywle i eistedd a chymdeithasu gyda ffrindiau. Daeth yr ardal hon yn hafan o lonyddwch yn ystod ac yn dilyn pandemig Covid gan ddangos pa mor ffodus ydym ni i fyw mewn cymdeithas sy'n gofalu am ei chymuned.

**Rydym ni'n croesawu aelodau newydd i ymuno gyda ni i 'wneud eu rhan', neu ddod draw am sgwrs fach.**